

Canllaw ar gyfer Siarad yn y Pwyllgor Cynllunio




CYFLWYNIAD

"Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili oedd un o'r awdurdodau lleol arloesol wrth roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd fynychu ei gyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio er mwyn siarad yn uniongyrchol â'r Pwyllgor ynghylch unrhyw gais cynllunio sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod.

Mae wedi galluogi gwrthwynebwyr ac ymgeiswyr i gyflwyno, yng ngeiriau eu hunain, unrhyw bryderon efallai sydd ganddynt ynghylch sut y gallai cais cynllunio effeithio arnynt. Mae'r cyfle hwn wedi cael ei groesawu gan y ddwy ochr ac mae wedi cael ei arddangos fel model o arfer da ymhlith awdurdodau cynllunio lleol.

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio sut mae'r cynllun yn cael ei weithredu ac yn ateb rhai o'r cwestiynau sydd gennych ynglŷn â'r gweithdrefnau a beth i ddisgwyl yn y cyfarfod. Mae wedi'i seilio ar reolau syml i wneud y system mor deg a hawdd ei weithredu a phosib, felly darllenwch yr holl lyfryn."



1. Sut mae'r Pwyllgor Cynllunio yn gweithio?



Nid yw'r Pwyllgor yn penderfynu ar bob cais. Mae'r mwyafrif o geisiadau yn cael eu penderfynu gan Swyddogion y Cyngor o dan gynllun dirprwyo'r Cyngor ac nid ydynt yn gaeth i'r gweithdrefnau mae'r llyfryn hwn yn esbonio. Dim ond y ceisiadau sydd i gael eu penderfynu gan y Pwyllgor y gallwch siarad amdanynt. Os oes gan unrhyw Aelod, fodd bynnag, unrhyw bryderon ynghylch cais o dan y cynllun dirprwyaeth, gall ef neu hi ofyn i'r cais gael ei osod o flaen y Pwyllgor Cynllunio fel y gallant benderfynu arno.

Ffoniwch y Swyddog Achos sy'n delio gyda'r cais i weld os yw'r cais mae gennych ddi-ddordeb ynddo yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio a dyddiad y cyfarfod. Gellir dod o hyd i enw'r Swyddog Achos a'u manylion cyswllt ar ohebiaeth sy'n mynd i'r afael â'r cais neu drwy ffonio 01495 235320.

Mae gan y Pwyllgor Cynllunio Gadeirydd, Is-gadeirydd ac 18 o Gynghorwyr eraill. Mae Aelodau'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig ar geisiadau cynllunio sydd i gael eu hystyried. Bydd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion, yn y mwyafrif o achosion naill ai i roi caniatâd yn ddibynnol ar amodau neu i wrthod am y rhesymau sy'n cael eu gosod yn yr adroddiad. Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio, fodd bynnag, fydd â'r penderfyniad terfynol ar ôl ystyried yr amgylchiadau i gyd.

2. Ble mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal a phwy all fynychu?

Cynhelir y cyfarfodydd yn Siambr y Cyngor yn Nhŷ Penallta, Tredomen. Gan fod y cyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd, gall y Wasg a'r cyhoedd fynychu a gwrandao ar y ddadl. Mae'r Siambr yn gwbl hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac mae ganddi gyfleuster dolen sain ar gyfer pobl gyda nam ar y clyw.

3. Oes rhaid i fi fynychu'r cyfarfod er mwyn gwneud y Pwyllgor yn ymwybodol o'm sylwadau?

NAC OES – bydd eich sylwadau ysgrifenedig wedi cael eu crynhoi yn adroddiad y swyddog (yn ddibynnod arnynt yn cael eu rhoi i'r adran gynllunio o fewn y cyfnod ymgynghori) neu mi fyddent yn cael eu hamlinellu ar lafar er mwyn cael eu hystyried gan y Pwyllgor.

4. Sut gallaf ddarganfod pan fydd cais penodol yn cael ei ystyried?

Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cwrdd pob pedair wythnos am 5.00pm yn Siambr y Cyngor. Mae agenda'r Pwyllgor fel arfer yn cael ei gyhoeddi erbyn y Dydd Mercher yr wythnos cyn cyfarfod y Pwyllgor, a gellir ei gael ar ein gwefan (www.caerffili.gov.uk) neu drwy ffonio Gwasanaethau Pwyllgor ar 01443 864420. Mae dyddiadau ac amserau'r cyfarfodydd ynghyd â rhestr o aelodau ar gael ar gais gan Wasanaethau Pwyllgor. Mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, mae angen isafswm o gyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny. Bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gais. Gofynnwch hefyd cyn gynted a phosib os ydych angen copi o'r adroddiad(au) perthnasol yn y Gymraeg neu unrhyw iaith arall, mewn print mawr neu mewn fformat arall e.e. Braille neu ar dâp sain. Ffoniwch Gwasanaethau Pwyllgor ar 01443 864420 am fwy o fanylion.

5. Sut ydw i'n trefnu siarad mewn cyfarfod?

Rhaid i ymgeiswyr a gwrthwynebwyr sydd am siarad cysylltu â Gwasanaethau Pwyllgor (Rhif Ffôn 01443 864420 neu e-bost pwyllgor@caerffili.gov.uk) erbyn 5.00pm ar y Dydd Llun cyn cyfarfod y Pwyllgor, lle bydd y cais yn cael ei benderfynu.

Mae hyn yn galluogi'r parti arall i gael cyfle i siarad ac yn gadael i'r Cadeirydd wybod sawl aelod o'r cyhoedd sydd am siarad. Bydd angen i chi ddweud wrthon ni beth yw cyfeiriad a rhif cyfeirnod y cais rydych chi am siarad amdano, ynghyd â'ch manylion cyswllt.

Os ydych am siarad yn Gymraeg neu iaith arall gerbron y cyfarfod, neu os oes angen defnydd dehonglydd iaith Arwyddion Prydain, cysylltwch â Gwasanaethau Pwyllgor o flaen llaw fel bod y trefniadau yn eu lle i gwrdd â'ch anghenion. Byddwn yn gwneud pob ymdrech ond hysbyswch ni cyn gynted â phosib neu efallai ni fydd digon o amser i wneud y trefniadau angenrheidiol.

Os, am unrhyw reswm, dyw'r ymgeisydd neu'r gwrthwynebydd ddim yn medru mynychu'r cyfarfod lle ystyrir y cais, gallant benodi cynrychiolydd i siarad ar eu rhan neu gyflwyno eu sylwadau yn ysgrifenedig.

5. Sut ydwi i'n trefnu siarad mewn cyfarfod? (parhad)



Dim ond un cynrychiolydd ar gyfer y gwrthwynebydd(wyr) ac un ar gyfer yr ymgeisydd fydd yn cael siarad. Os oes sawl gwrthwynebydd neu gefnogwr am siarad am y cais dylid enwebu llefarydd.

I'ch cynorthwyo chi gyda phenderfynu pwy ddylai siarad, byddwn yn gofyn a allwn roi eich enw a'ch rhif ffôn i wrthwynebwyr (neu gefnogwyr) eraill, fel y gallwch gytuno ymhlith eich gilydd pwy fydd y llefarydd. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Cadeirydd ganiatáu i fwy nag un person siarad.

Hyd yn oed os ydych wedi hysbysu eich bod am siarad yn y cyfarfod cewch newid eich meddwl a phenderfynu peidio â siarad.

6. Beth sy'n digwydd yn y cyfarfod?

Ar ddiwrnod cyfarfod y pwyllgor cyrhaeddwch yn Siambr y Cyngor yn Nhŷ Penallta, Tredomen erbyn 4.45pm. Dylech gyflwyno'ch hunan i'r Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor, a fydd yn eich arwain at sedd yn yr oriel gyhoeddus yng nghefn Siambr y Cyngor.

Mae copïau o'r agenda a'r adroddiadau ar gael yn y cyfarfod, er efallai bydd rhaid i chi eu rhannu. Efallai y bydd yn anodd derbyn pobl a fydd yn cyrraedd y cyfarfod yn hwyr. Bydd unrhyw berson nad ydynt yn bresennol pan fo'r cais yn cael ei ystyried yn colli'r cyfle i annerch y Pwyllgor.

Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pob cais cynllunio ac yn gwahodd pob siaradwr i flaen y Siambr i annerch y Pwyllgor.

Caiff aelodau'r cyhoedd siarad yn y drefn ganlynol:

- Gwrthwynebydd (neu ei gynrychiolydd)
- Ymgeisydd (neu ei asiant)

Rhaid i'r siaradwyr annerch yr un cyfarfod pwyllgor. Mae pawb sydd am siarad am gais yn gyfyngedig i bum munud yr un. Bydd y Cadeirydd yn cadw at yr amser terfyn o bum munud yn ddieithriad, a bydd gofyn i chi i ddychwelyd i'ch sedd yn yr oriel gyhoeddus pan fydd y pum munud ar ben ac i beidio cymryd rhan bellach yn y cyfarfod.

Ni fydd Siaradwyr yn cael gofyn cwestiynau i'r Cyngorwyr neu'r Swyddogion. Ni all aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i'r siaradwyr yn uniongyrchol ond gallant ofyn am eglurhad gan y Cadeirydd, gyda'r ymatebion yn cael eu darparu drwy'r Swyddogion.

6. Beth sy'n digwydd yn y cyfarfod? (parhad)

Bydd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn dadlau'r mater wedyn ac yn cyrraedd penderfyniad. Os yw cais yn cael ei gyfeirio at gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol ar ôl iddo gael ei ystyried, ni fydd cyfle arall i annerch y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn ystyried nifer o geisiadau yn y cyfarfodydd ond yn delio gyda'r ceisiadau lle mae siaradwyr ar eu cyfer ar ddechrau'r cyfarfod. Ar ôl gwranddo ar y ddadl ar eich cais penodol cewch naill ai adael neu aros yn yr oriel gyhoeddus a gwranddo ar weddill y cyfarfod. Os ydych yn penderfynu gadael, gwnewch hynny'n dawel os gwelwch yn dda.

Bydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu cymryd er mwyn cofnodi enwau'r siaradwyr, pa geisiadau maent yn cyfeirio atynt a'r penderfyniad sydd wedi cael ei wneud. Mae cofnodion o gyfarfodydd blaenorol ar gael ar ein gwefan (www.caerffili.gov.uk). Dylech, fodd bynnag, fod yn ymwybodol, y gellir cymryd nodiadau o'ch sylwadau ar lafar a gallant fod ar gael i'r cyhoedd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Dylech nodi bod deddfau athrod yn rhai caeth iawn. Os byddwch yn dweud rhywbeth difenwol yn gyhoeddus ynglŷn â pherson nad yw yn wir, gallwch roi eich hun mewn perygl o weithrediad cyfreithiol yn eich erbyn. Dylech hefyd sicrhau nad yw eich sylwadau'n wahaniaethol.

7. Beth sy'n digwydd os gofynnir am ymweliad â'r safle?

Gall aelodau ofyn am ymweliad â'r safle cyn i'r cais cael ei ystyried yn unol â Chyfansoddiad Cyngor Caerffili.

Bydd pob ymweliad safle ar y Dydd Llun cyn y Pwyllgor Cynllunio am geisiadau sy'n cael eu hadrodd i'r pwyllgor.

Pwrpas yr ymweliad safle yw edrych ar safle'r cais gan alluogi'r Aelodau sy'n bresennol i gwestiynu/egluo pwyntio o'r cais cynllunio gyda'r swyddogion. Ni fydd sylwadau gan unrhyw drydydd parti yn cael eu clywed.

Os oes ymweliad safle cynghorir gwrthwynebwyr ac ymgeiswyr i wirio gyda Gwasanaethau Pwyllgor ar 01443 864420 trwy ffonio neu e-bostio pwylgor@caerffili.gov.uk

8. Gaf i ddefnyddio sleidiau neu uwch-daflunydd, cyflwyniadau fideo neu gylchredeg dogfennau cefnogol?



NA – nid oes hawl defnyddio sleidiau, uwch-daflunydd na chyflwyniad fideo. Os ydych am gylchredeg dogfennau cynorthwyol neu ffotograffau rhaid i chi drafod hyn gyda Gwasanaethau Pwyllgor yn gyntaf. Os byddwch yn cael cylchredeg dogfennau tebyg, chi bydd yn gyfrifol am gyflenwi digon o gopiau.

Os hoffai unrhyw ymgeisydd neu wrthwynebydd i'r Pwyllgor ystyried unrhyw dystiolaeth gynorthwyol, gohebiaeth neu unrhyw ddogfennaeth arall sydd wedi dod ar gael ar ôl i adroddiad y Swyddog gael ei gyhoeddi ac nad ydyw yn yr adroddiad, rhaid darparu copïau i'r Rheolwr Rheoli Datblygu o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod Pwyllgor lle ystyrir y cais.

9. Beth alla i ddweud yn y cyfarfod?

Mae'n well paratoi beth rydych am ei ddweud ymlaen llaw a rhoi amser i'ch hunan er mwyn gwneud yn siŵr eich bod medru dweud popeth mewn 5 munud. Rydych yn debygol o gael yr effaith fwyaf os ydych:

- Yn siarad yn gryno a phwrpasol
- Yn cadw eich sylwadau i'r cais cynllunio
- Yn canolbwyntio ar y materion cynllunio priodol

10. Beth yw'r materion perthnasol wrth ystyried y ceisiadau?

Bydd y materion priodol yn amrywio gyda natur y cais, ond mae esiamplau yn cynnwys y canlynol:

- Y Cynllun Datblygu
- Arweiniad oddi wrth Lywodraeth Cymru
- Materion Cynladwyedd
- Penderfyniadau cynllunio blaenorol
- Sŵn, aflonyddwch ac aroglau
- Cyfleuster preswyl
- Achos traffig, diogelwch priffyrdd a pharcio
- Dyluniad, ymddangosiad, deunyddiau, dwysedd a chynllun
- Yr effaith ar goed, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth
- Mannau agored cyhoeddus

11. Pa faterion sydd gan amlaf yn ddibwys wrth ystyried ceisiadau?



Bydd y rhain yn amrywio o achos i achos ond mae'r canlynol gan amlaf yn ddibwys:

- Y materion a reolir gan ddeddfwriaeth arall (e.e. Rheoliadau Adeiladu)
- Dadleuon perchnogaeth tir neu ffiniau
- Cymelliadau neu foesau'r datblygwyr
- Datblygiadau tybiedig y dyfodol
- Colli golygfa dros dir pobl eraill
- Effeithiau ar werth yr eiddo
- Cyfamodau
- Hawliau Tramwy Preifat

Er y gall sylwadau o'r fath fod yn bwysig i chi, nid ydynt o reidrwydd yn faterion cynllunio ac efallai na fydd ganddynt lawer o bwys pan fydd y Pwyllgor yn gwneud penderfyniad ar y cais.

12. Rôl y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

Etholwyd cynghorwyr i'ch cynrychioli chi ar y Cyngor Bwrdeistref Sirol. Efallai byddwch am gysylltu â'ch cynghorydd yn uniongyrchol i drafod eich cais cynllunio. Fodd bynnag, os ydynt yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ni fyddant yn gallu ymrwymo eu hunain i benderfyniad cyn clywed yr holl dystiolaeth a thrafod y mater yn y cyfarfod pwyllgor priodol. Os ydych yn dymuno i gynghorydd i gynrychioli eich safbwynt yn y Pwyllgor Cynllunio, yna cynghorir eich bod yn cysylltu a Chynghorydd nad ydynt ar y Pwyllgor.

Rhaid i Gynghorwyr sydd yn dymuno annerch y Pwyllgor hysbysu Gwasanaethau Pwyllgor erbyn 5.00pm ar y Dydd Mawrth cyn y cyfarfod Pwyllgor lle bydd y cais yn cael ei benderfynu, felly siaradwch â'ch Aelod Ward Lleol cyn gynted â phosib os hoffech iddynt gynrychioli eich safbwynt yn y cyfarfod. Maent yn gyfyngedig hefyd i gyfnodau annerch o bum munud a byddant yn siarad ar ôl y gwrthwynebydd a/ neu'r ymgeisydd.

13. At bwy ydw i'n cyfeirio unrhyw ymholiadau arall?

Os oes unrhyw gwestiynau gennych sydd heb gael eu hateb yn y llyfryn hwn, neu unrhyw sylwadau pellach, cysylltwch â Gwasanaethau Pwyllgor ar

01443 864420 neu e-bostio **pwyllgor@caerffili.gov.uk**

Mae'r canllaw hwn ar gael yn Saesneg ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.

This guide is available in English, and in other languages or formats on request.